

## Cysylltiadau ag agweddau eraill ar y Cwricwlwm

Mae'r darnau y cyfeirir atynt isod yn darparu cyfleoedd i gysylltu â meysydd eraill o'r Cwricwlwm:

### Rhifyn 17

Darn	Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:
Rasio'r trên	<p><b>Daearyddiaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap o Gymru ac i chwilio am wybodaeth am drenau bach Cymru</li> <li>cyfle i chwilio am wybodaeth am yr ardal ac i greu map sy'n dangos cwrs ras yn yr ardal</li> </ul> <p><b>Hanes</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cyfle i chwilio am wybodaeth am hanes trenau bach Cymru</li> <li>cyfle i chwilio am wybodaeth am hanes yr ardal</li> </ul> <p><b>Mathemateg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cyfle i newid o filltiroedd i gilometrau</li> <li>cyfle i gyfrifo pa mor gyflym roedd rhedwr yn rhedeg yn y ras yn erbyn y trên</li> </ul> <p><b>Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cyfle i chwilio am wybodaeth ac i drosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau</li> </ul>
Edrych yn ôl dros y flwyddyn	<p><b>Celf</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>chwilio am wybodaeth am Kyffin Williams a'i waith</li> </ul> <p><b>Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>chwilio am wybodaeth am Kyffin Williams a'i waith</li> <li>trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delwedd</li> </ul>
Pizzas	<p><b>Hanes</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cyfle i astudio beth roedd pobl yn ei fwyta mewn gwahanol gyfnodau a chymharu'r bwyd â'r hyn rydym yn ei fwyta heddiw</li> <li>cyfle i chwilio am darddiad bwydydd eraill</li> </ul> <p><b>Technoleg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>trafod ydy pizzas yn iach, gan roi rhesymau</li> <li>creu rysâit ar gyfer pizzas iach</li> </ul> <p><b>Mathemateg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>gwneud a defnyddio holiaduron a chreu graffiau i ddangos y canfyddiadau; cyfle hefyd i egluro'r graffiau</li> </ul>
Rhedeg dros Gymru	<p><b>Daearyddiaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap, sef y lleoedd mae Tomos wedi rasio ynddynt</li> <li>cyfle i gynllunio ras yn yr ardal, i wneud map ac ati</li> </ul> <p><b>Addysg gorfforol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cyfle i drafod sut y dylid paratoi ar gyfer ras fawr, gan gynnwys beth y dylid ei fwyta ar ddiwrnod y ras</li> </ul>
I fyny mynydd Kilimanjaro	<p><b>Daearyddiaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cyfle i chwilio am leoliad Kilimanjaro, a'i ddangos ar fap</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfle i chwilio am wybodaeth am fynydd Kilimanjaro</li> <li>• cyfle i chwilio am wybodaeth am y pum mynydd uchaf yn y byd a'u lleoli ar fap o'r byd hefyd</li> </ul> <p><b>Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• chwilio am wybodaeth am y pum mynydd uchaf yn y byd</li> <li>• trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau</li> </ul>
Dewr!	<p><b>Hanes</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfle i astudio digwyddiad o gyfnod yr Ail Ryfel Byd</li> </ul> <p><b>Celf</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfle i drafod a gwerthuso paentiad sy'n cofnodi digwyddiad hanesyddol</li> <li>• Gellid creu stamp i gofio am ddigwyddiad arbennig (gweler y darn <b>Clogyn yr Wyddgrug</b> hefyd).</li> </ul> <p><b>Cerddoriaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfle i drafod a gwerthuso darn o gerddoriaeth sy'n cofnodi digwyddiad hanesyddol</li> </ul> <p><b>Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfle i chwilio am wybodaeth</li> <li>• cyfle i greu stamp</li> </ul>
Clogyn yr Wyddgrug	<p><b>Hanes</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfle i drafod yr Oes Efydd ac i astudio rhai arteffactau o'r cyfnod</li> </ul> <p><b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfle i chwilio am fwy o wybodaeth am y clogyn neu am yr Oes Efydd</li> </ul> <p><b>Celf a Dylunio</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfle i wneud stamp i ddangos gwrthrych arbennig neu i goffáu digwyddiad</li> </ul> <p><b>Dylunio a Thechnoleg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfle i wneud stamp i ddangos gwrthrych arbennig neu i goffáu digwyddiad</li> </ul>

### Y Cwricwlwm Cymreig

Yn y darn **Rasio'r trê'n**, mae cyfle i ddysgu mwy am drenau bach Cymru a'r modd y mae'r defnydd ohonynt wedi datblygu i fyd twristiaeth. Mae cyfle i ddysgu am yr artist Kyffin Williams ac i astudio peth o'i waith yn y darn **Edrych yn ôl dros y flwyddyn** ac yn **Clogyn yr Wyddgrug**, ceir ychydig o hanes y clogyn hwn ond byddai'n bosib gwneud llawer mwy o ymchwil i'r clogyn ac i'r cyfnod wrth gwrs. Ceir cyfeiriadau at rai o rasys Cymru, megis Ras yr Wyddfa, yn y darn **Rhedeg dros Gymru**.